

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

29 Ebrill 2021, 2.30PM

Dros Teams

Cofnodion

Yn bresennol

Judith Hardisty (JH), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Cadeirydd)
Jill Paterson (JP), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jonathan Griffiths (JG), Cyngor Sir Penfro
Donna Pritchard (DP), Cyngor Sir Ceredigion
Joanne Silverthorne (JS) Cynrychiolydd Gofalwyr
Alun Williams, (CyngW), Cyngor Sir Ceredigion
Hazel Lloyd-Lubran (HLL), Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Y Cynghorydd Tessa Hodgson (CyngTH), Cyngor Sir Penfro
Anna Bird (AB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Hilary Jones (HJ), Cymdeithas Tai Bro Myrddin
Alan Thomas (AT), Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth
Jake Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Ros Jervis (RJ), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Y Cyng. Jane Tremlett (CyngT), Cyngor Sir Caerfyrddin
Cathryn Thomas (CT), Gofal Cymdeithasol Cymru

Hefyd yn bresennol:

Elin Brock (EB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Martyn Palfreman (MJP), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Kim Neyland (KN), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Jessica Rees (JR), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Cofnodion)
Angharad Davies (AD), Opinion Research Services (Rhan) Liz Puntan (LP), Opinion
Research Services (Rhan) Rebecca Llewellyn (RL), Partneriaeth Gofal Gorllewin
Cymru (Rhan) Joff Lee (JL), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Rhan) Jessica Svetz
(JS), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Rhan)

Ymddiheuriadau

Estelle Hitchon (EH), Ymddiriedaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Jonathan Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Malcolm Perrett (MP), Fforwm Gofal Cymru
Gaynor Toft (GT), Cyngor Sir Penfro
James Tyler (JT), Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth
Karen Chandler (KC), Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
Sian Howys (SH), Cyngor Sir Ceredigion
Steve Moore, (SM) Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Maria Battle, (MB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Gareth Morgans (GM), Cyngor Sir Caerfyrddin

1. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

2. Ymddiheuriadau

Nodwyd y rhain.

3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2021 a chamau gweithredu

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Rhoddodd MJP ddiweddariad ar y Cynnydd ar y camau gweithredu canlynol, a nodir fel a ganlyn:

Cwrdd â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i drafod dull o gynnal Asesiad Poblogaeth

Byddai'r Asesiad Poblogaeth yn cael ei gynnwys yn ddiweddarach yn yr agenda.

Cadarnhau safbwynt rhanbarthol ynghylch cais Mabwysiadwr Cynnar ar gyfer Fframwaith EHES

Dywedodd MJP fod Gorllewin Cymru wedi'i gymeradwyo fel mabwysiadwr cynnar, ynghyd â'r holl Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol eraill ledled Cymru.

Adrodd ar ddiwygiadau terfynol i'r strwythur llywodraethu a chyflwyno cylch gorchwyl diwygiedig i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ei ystyried

Dywedodd MJP y byddai diweddariadau pellach ar y strwythur llywodraethu (gan gynnwys cylch gorchwyl diwygiedig y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol) a'r manifestio drafft yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y bwrdd ym mis Gorffennaf i'w hystyried.

Ymateb i ymgynghoriad y Papur Gwyn i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru

Yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod blaenorol, roedd aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wedi cael cyfle i roi sylwadau terfynol ar ymateb ymgynghoriad y Papur Gwyn, cyn ei gyflwyno. Ni ragwelwyd adborth gan Lywodraeth Cymru tan ar ôl etholiad y Senedd.

4. Diweddariad y Gronfa Drawsnewid a Gwerthusiad Interim

Wrth roi cyflwyniad byr, dywedodd MJP fod dyraniad o £410K wedi'i dderbyn drwy'r Gronfa Drawsnewid i barhau i weithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, a oedd wedi cael cymorth drwy'r Gronfa Gofal Integredig yn flaenorol. Ochr yn ochr ag ymgorffori'r system yng Ngheredigion a thimau ieuchyd penodol ar draws y rhanbarth, un o flaenoriaethau'r flwyddyn i ddod fyddai cydweithio i ddatblygu rhyngwynebau â systemau rheoli gofal eraill ym maes ieuchyd a gofal cymdeithasol, gan greu setiau data a rennir i hwyluso gweithio integredig ar lefel ranbarthol a dadansoddiad cenedlaethol o dueddiadau. Bydd y rhaglen hon yn adrodd yn rheolaidd i'r grŵp rhaglen Digidol a TEC rhanbarthol.

Dyfarnwyd £774,000 i'r rhanbarth hefyd i gefnogi gwella llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu, drwy Gronfa Graddio Trawsnewid newydd. Roedd cynigion wedi'u

cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn gynharach ym mis Ebrill a derbyniwyd adborth dros dro, ac o ganlyniad roedd cynigion yn cael eu mireinio.

Dywedodd MJP ymhellach fod Bwrdd Rhaglen Gorllewin Cymru Iachach newydd ei gynnull wedi cyfarfod ddwywaith ac y byddai'n monitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau cyflawni bob mis. Byddai'r bwrdd yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Gweithredol Integredig a byddai adroddiadau ar y prif bwyntiau yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.

Roedd Opinion Research Services wedi'u penodi'n werthuswyr annibynnol ar raglen Gorllewin Cymru Iachach yn y flwyddyn ariannu drosiannol. Un flaenoriaeth frys oedd llunio Adroddiad Gwerthuso Interim, gan adeiladu ar ganfyddiadau ac argymhellion adroddiad KPMG yn hydref 2020. Roedd yr adroddiad interim wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol Integredig i'w gymeradwyo ar 26 Ebrill.

Croesawyd Angharad Davies a Liz Puntan o ORS i gyflwyno canfyddiadau allweddol yr adroddiad interim, a oedd wedi'u llywio gan adolygiad bwrdd gwaith a grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda chydweithwyr perthnasol. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Bod yr holl raglenni bellach wedi'u paratoi'n llawn ar draws y rhanbarth
- Effaith Covid-19 a oedd wedi golygu bod angen addasu a chyflymu nifer o'r rhaglenni, gan ddarparu ychwanegedd i'r gwasanaethau craidd
- Aliniad cryf rhwng y rhaglenni a'r ddeddfwriaeth genedlaethol (Deddfau Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)
- Y farn y byddai trawsnewid gwasanaethau yn hirdymor ac yn cynnwys amrywiaeth o raglenni ategol yn hytrach na dim ond y mentrau Gorllewin Cymru Iachach
- Roedd Rhaglen 1 (CONNECT) yn dangos parodrwydd pobl i gael gafael ar gymorth drwy dechnoleg; ystyriwyd bod y rhaglen yn arweinydd ledled y DU mewn perthynas â theleofal a theleiechyd
- Roedd angen defnyddio'r dysgu o Raglen 3 (Integreiddio Cyflym, Cyson) i lywio newid ehangach y system
- Roedd Rhaglen 7 (Creu Cysylltiadau i Bawb) wedi bod yn allweddol wrth hyrwyddo a hwyluso ymateb o fewn cymunedau; roedd darpariaeth wedi parhau yn rhithwir oherwydd Covid-19 ac er bod ychydig o lwyddiant, roedd hyn yn anochel wedi eithrio rhai dinasyddion rhag manteision posibl
- Roedd asesu manteision cost rhaglenni yn anodd oherwydd anallu i nodi achos clir rhwng mentrau unigol a newid system ehangach, diffyg data ac effaith y pandemig
- Dylai'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar gyfer y cyfnod cyflawni sy'n weddill gynnwys:
 - Defnyddio dysgu i lywio'r gwaith o gyflawni'n barhaus
 - Gwellu a safoni mesurau allbwn a chanlyniadau i ddangos effaith
 - Sicrhau bod rhaglenni'n cael eu cyflwyno'n effeithiol ar draws y rhanbarth
 - Gweithio i gynnal dadansoddiad cost a budd ystyrion
 - Archwilio cynaliadwyedd lefelau staffio a ariennir

Canmolodd JH y gwaith yr oedd y gwerthuswyr wedi'i wneud mewn cyfnod byr o amser. Diolchodd MJP hefyd i uwch-reolwyr ac aelodau a oedd wedi cymryd yr amser i ymgysylltu ag ORS mewn cyfnod mor fyr.

Gwahoddwyd sylwadau ac arsylwadau ac yn ystod y drafodaeth pwysleisiwyd pwysigrwydd dadansoddi cost a budd yn effeithiol. Dywedodd MJP fod trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau capasiti ychwanegol i gefnogi'r gwaith hwn ar draws pob rhanbarth.

5. Diweddariad a Blaenraglen y Ganolfan Cydlynu Ymchwil, Arloesedd a Gwelliant (RIICH)

Rhoddodd Elin Brock, Pennaeth Ymchwil, Arloesedd a Gwelliant yn RIICH Gorllewin Cymru, drosolwg o'r gwaith yr oedd yr Hyb wedi bod yn ei wneud ers ei sefydlu a chynllun amlinellol ar gyfer ei ail flwyddyn, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol Integredig. Un o'r prif gyflawniadau yn y flwyddyn gyntaf o weithredu oedd ymarfer mapio cynhwysfawr o gapasiti Ymchwil, Arloesedd a Gwelliant ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngorllewin Cymru, a gynhaliwyd ar y cyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Phrifysgol Abertawe. Byddai canfyddiadau'r ymarfer hwn yn cael eu cyflwyno mewn digwyddiad rhanbarthol rhithwir ar 12 Mai, y gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol iddo. Roedd y canfyddiadau allweddol a fyddai'n cael eu rhannu yn cynnwys:

- Bod Ymchwil, Arloesedd a Gwelliant yn 'dirwedd anniben' ar hyn o bryd gyda ffocws clir ar wasanaethau clinigol
- Bod annhegwch amlwg o ran adnoddau a buddsoddiad ar draws y system
- Nid yw maes Ymchwil, Arloesedd a Gwelliant yn cael ei flaenoriaethu ar hyn o bryd, gan nad oes amser gan reolwyr ac ymarferwyr i fuddsoddi'n iawn ynddo
- Ar hyn o bryd ychydig iawn o integreiddio / cydweithio a gafwyd ar Ymchwil, Arloesedd a Gwelliant ar draws partneriaid

Roedd ymgynghorwyr allanol wedi'u comisiynu i arwain ar fodel Ymchwil, Arloesedd a Gwelliant wedi'i gyd-gynhyrchu ar gyfer y llunio rhanbarthol o ganfyddiadau'r ymarfer mapio.

Roedd y gwaith arall a wnaed hyd yma yn cynnwys:

- Gweithio gyda chanolfannau rhanbarthol eraill fel rhwydwaith cenedlaethol, gyda phwyslais ar hyrwyddo'r broses o fabwysiadu a lledaenu gweithgarwch
- Gweithio gyda chyrff cenedlaethol fel yr Hyb Gwyddorau Bywyd, Technoleg Iechyd Cymru a 1000 o Fwydau
- Cynnal adolygiad o brofiad staff ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystod Covid-19 i lywio gweithgarwch adfer
- Datblygu ar fethodoleg 'Mabwysiadu a Lledaenu' i gefnogi'r gwaith o ddatblygu modelau gofal a chymorth llwyddiannus
- Cefnogi'r gwaith o werthuso gweithgarwch, gyda chynlluniau i adolygu rhaglenni'r Gronfa Gofal Integredig
- Datblygu rhaglen interniaid drwy Bartneriaeth Prifysgol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Yn dilyn trafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Pwysigrwydd cysylltu gwaith yr RIICH a swyddogaethau ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru – cadarnhaodd EB fod trafodaethau'n parhau
- Dylai archwilio manteision gweithio integredig fod yn flaenoriaeth i'r Hyb
- Manteision Ymchwil, Arloesedd a Gwelliant o ran cefnogi newid cynaliadwy a hwyluso mewnbwn defnyddwyr gwasanaethau a gofalcwyr

Nodwyd y diweddariad a chytunwyd y byddai cyflwyniad EB yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau.

6. Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru 2022

Esboniodd MJP, o dan Ran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ei bod yn ofynnol i bartneriaid rhanbarthol lunio Asesiadau Poblogaeth sy'n darparu asesiad o'r angen am ofal a chymorth ac anghenion cymorth gofalcwyr yn eu hardal. Rhaid cyhoeddi'r Asesiad Poblogaeth unwaith yn ystod pob cylch etholiadol llywodraeth leol. Roedd Gorllewin Cymru wedi cyhoeddi ei Asesiad Poblogaeth cyntaf ym mis Mawrth 2017 ac roedd angen cyhoeddi'r Asesiad nesaf erbyn mis Mawrth 2022.

Yn dilyn cyhoeddi Asesiad Poblogaeth 2017 comisiynwyd Data Cymru i ddatblygu porth data ar-lein ar gyfer y rhanbarth a oedd yn cynnwys gwybodaeth gryno o'r Asesiad Poblogaeth a'r Cynllun Ardal, gan gynnwys setiau data craidd a ddiweddarwyd yn rheolaidd. Gwnaed y gwaith diweddarau diweddaraf o adnewyddu'r data hwn ar ddechrau 2021 a byddai'n darparu elfen sylweddol o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr Asesiad nesaf, ynghyd â data ansoddol a gesglir drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol.

Cafwyd cyngor atodol gan Lywodraeth Cymru yn ailadrodd y gofynion deddfwriaethol ac yn cyflwyno canllawiau newydd, gan gynnwys gorfod talu sylw penodol yn yr Asesiad i anghenion pobl awtistig a phobl â dementia, ac asesu effaith debygol Covid hir.

Un gofyniad ychwanegol a gyflwynwyd gan Gôd Ymarfer newydd a gyflwynwyd yn 2021 oedd i'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol lunio Adroddiadau ynghylch Sefydlogrwydd y Farchnad, asesu digonolrwydd gofal a chymorth yn erbyn anghenion a nodwyd yn yr Asesiad Poblogaeth a sefydlogrwydd tebygol gwasanaethau a reoleiddir dros y cyfnod o 5 mlynedd nesaf. Byddai'r Adroddiad hwn yn llywio gweithgarwch comisiynu ar draws y bartneriaeth.

Cyflwynwyd cynllun amlinellol ar gyfer cyflawni'r Asesiad Poblogaeth a'r Adroddiad ynghylch Sefydlogrwydd y Farchnad. Roedd cynllun manylach yn cael ei lunio a byddai adnoddau priodol yn cael eu nodi i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlenni gofynnol.

Byddai cydweithio'n agos gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y rhanbarth i hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth berthnasol ac er mwyn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio, er enghraifft mewn perthynas ag ymgysylltu.

Pwysleisiodd RJ barodrwydd Iechyd y Cyhoedd i helpu gyda'r gwaith hwn, yn enwedig mewn perthynas ag effaith Covid-19 a Covid hir.

Awgrymodd HLL fod gan yr asesiad poblogaeth fwy o arwyddocâd y tro hwn ac roedd angen iddo fod yn offeryn i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn hytrach na dim ond bodloni gofyniad Llywodraeth Cymru. Awgrymodd y byddai'n werthfawr i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gael rhagor o wybodaeth am sut yr oedd prosesau Asesu Poblogaeth ac Asesu Llesiant yn cyd-fynd a goblygiadau ar gyfer cydweithio yn y dyfodol. Cytunodd MJP i weithredu hyn.

Nododd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol y dull gweithredu arfaethedig a chytunodd, yn hytrach na nodi unig noddwr ar gyfer yr Asesiad Poblogaeth, y dylai pob aelod oruchwylio'r gwaith ar y cyd.

7. Diweddariad am y Gronfa Gofal Integredig

Yn gyntaf, rhoddodd KN drosolwg i'r aelodau o'r alldro refeniw a'r sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2020-21. Roedd sylw wedi'i roi i'r amrywiant rhwng y gwariant a adroddwyd a'r gwariant a anfonebwyd a nodwyd yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, a dywedodd KN fod gwariant llawn wedi'i gyflawni ar draws grwpiau poblogaeth, gan gynnwys o fewn y rhaglen Dementia. Wedyn, rhoddwyd dadansoddiad ariannol i'r Aelodau ar gyfer pob grŵp poblogaeth.

Cymeradwyodd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yr alldro a'r sefyllfa diwedd blwyddyn.

Roedd Cynllun Buddsoddi Refeniw 2021-22 wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mawrth. Roedd adborth amodol gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn gadarnhaol, er bod y lefel isel o fuddsoddiad i gefnogi gofalwyr di-dâl o fewn rhaglenni generig wedi'i amlygu fel rhywbeth yr oedd angen rhoi sylw iddo. Nodwyd bod hyn oherwydd anawsterau wrth fesur y buddsoddiad yn hytrach na bod yn ddangosydd o reidrwydd nad oedd yn ddigonol. Dywedodd KN fod Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru wedi datblygu methodoleg i fesur hyn ac y byddai hyn yn cael ei ystyried drwy'r Fforwm Cronfa Gofal Integredig rhanbarthol gyda'r bwriad i ystyried ei mabwysiadu.

Wedyn, rhoddodd KN drosolwg o'r sefyllfa o ran rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig. Cadarnhaodd:

- Mai'r gwariant ar ddiwedd 2020-21 oedd £6,843,000
- Fel y dywedwyd yn flaenorol, roedd Llywodraeth Cymru wedi caniatáu i'r gwaith o reoli rhaglenni tanwariant 2020-21 gael ei reoli yn 2021-22, gan alluogi rhaglenni wedi'u gohirio oherwydd Covid-19 a ffactorau eraill i gael eu cyflwyno a'u cwblhau yn y flwyddyn ariannol newydd
- Roedd rhaglen Gyfalaf 2021-22 yn cael ei hadolygu yn unol â hynny a byddai'n cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i'w chymeradwyo'n rhithwir.

Rhoddwyd diweddariad byr ar y gwerthusiad cenedlaethol o'r Gronfa Gofal Integredig. Cynhwyswyd 14 o raglenni Gorllewin Cymru a byddai gwaith maes yn dechrau cyn bo hir. Byddai'r RIICH yn cynnal gwerthusiad atodol o raglenni eraill.

8. Cynllun Gaeaf Gorllewin Cymru 2020-21: Sefyllfa Diwedd Blwyddyn

Cyflwynodd MJP yr adroddiad yn fyr a oedd yn rhoi sefyllfa diwedd blwyddyn mewn perthynas â Chynllun Gaeaf Integredig Gorllewin Cymru a gymeradwywyd gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ym mis Hydref 2020. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r canlynol:

- Yr alldro ariannol a ddangosodd danwariant o £1.257 ar draws yr holl ffrydiau ariannu, yn bennaf oherwydd rhaglenni penodol nad oedd yn datblygu o ganlyniad i brinder staff a chapasiti yn sgil pandemig Covid-19
- Ychydig o orwariant yn erbyn dyraniad Rhyddhau i Adfer ac Asesu (yr oedd gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gyfrifoldeb uniongyrchol drosto); roedd hyn yn adlewyrchu addasiadau y cytunwyd arnynt i raglenni i amsugno llithriad a chydbwysu yn erbyn tanwariant mewn cyllid er mwyn mynd i'r afael â 4 niwed y Cynllun Diogelu Gaeaf cenedlaethol

- Cynnig i barhau â grŵp monitro'r Cynllun Gaeaf amlasiantaethol i edrych yn fanylach ar effaith cynlluniau ac ystyried y posibilrwydd o barhau â dulliau llwyddiannus drwy gyllidebau craidd neu ffrydiau ariannu allanol megis Gofal Sylfaenol Brys a'r Gronfa Graddio Trawsnewid. Byddai cynlluniau tymhorol posibl yn cael eu cwmpasu cyn y gaeaf sydd i ddod a dyraniadau cyllid newydd posibl gan Lywodraeth Cymru

Nodwyd yr holl faterion uchod.

9. Diweddariad ynghylch Rhoi Cymorth i Ofalwyr

Rhoddodd AB y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am waith i ofalwyr yn y rhanbarth, dan oruchwyliaeth Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru. Dywedodd y canlynol:

- Roedd Gorllewin Cymru wedi derbyn dyraniad o £121,000 gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r ddarpariaeth yn erbyn y tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer Gofalwyr, gan ategu rhaglen waith ehangach a oedd hefyd yn cynnwys adnoddau drwy'r Gronfa Gofal Integredig
- Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eu strategaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr di-dâl a oedd yn cyd-fynd yn agos â strategaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru
- Roedd pandemig Covid-19 a'r penderfyniad i flaenoriaethu Gofalwyr di-dâl i gael eu brechu wedi cynyddu nifer y Gofalwyr a oedd yn anhysbys neu'n "gudd" o'r blaen. Roedd dros 2,500 o unigolion nad oedd wedi cofrestru gyda'u meddyg teulu yn flaenorol wedi rhoi gwybod i'r Bwrdd Iechyd eu bod yn Ofalwyr. Yn ogystal, bu cynnydd o 141% mewn atgyfeiriadau i wasanaethau allgymorth.

Gofynnodd y Cyngorydd T a oedd dadansoddiad yn ôl sir o lefel y gofalwyr di-dâl a oedd wedi dod ymlaen ar gael. Dywedodd AB y byddai'n gallu rhannu'r wybodaeth hon cyn bo hir ac i nodi a oeddent yn rhiant-ofalwyr neu'n ofalwyr i bobl hŷn.

Pwysleisiodd RJ bwysigrwydd mynd i'r afael â materion gofalwyr drwy lens atal a dywedodd fod Grŵp 6 y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI) wedi cynnwys gofalwyr di-dâl yn y rhaglen frechu.

Nododd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol y diweddariad a hefyd fod gwasanaethau a gomisiynwyd gan Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru yn sicrhau bod 100% o'r cyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu i sefydliadau partner y trydydd sector, sydd yn ei dro yn cyfrannu at gynhyrchu gwerth cymdeithasol ychwanegol.

10. Blaengynllun y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol

Cyflwynodd MJP y blaengynllun dros dro a fyddai'n cael ei addasu yn ôl yr angen oherwydd datblygiadau drwy'r flwyddyn. Nodwyd ymhellach fod y rhestr o gyfarfodydd yn golygu y byddai angen gwneud rhai penderfyniadau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn rhithwir er mwyn bodloni terfynau amser a bennwyd yn allanol.

Y gobaith oedd y byddai'r blaengynllun yn galluogi aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i gael golwg ar fusnes sydd ar y gweill a chael y cyfle i fwydo i agendâu cyfarfodydd yn y dyfodol.

Diolchodd y Cynghorydd AW i MP am y blaengynllun ac, gan nodi y disgwylir i'r Comisiynydd Plant fod yn bresennol eto yn yr hydref, gofynnodd a allai fod o fudd gwahodd y Comisiynydd Pobl Hŷn i gyfarfod yn y dyfodol? Dywedodd JG ei fod, yn rhinwedd ei swydd ADSS, wedi cael ei wahodd i drafodaeth bord gron gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn ynghylch cefnogi pobl hŷn i adennill iechyd meddwl a chorfforol yn dilyn y pandemig. Cytunodd MJP i archwilio cyfleoedd i wahodd y Comisiynydd i drafodaeth yn y dyfodol.

Awgrymwyd ymhellach y dylid hefyd ystyried y posibilrwydd o wahodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Nododd yr Aelodau'r blaengynllun a chytunodd i (1) nodi eitemau ychwanegol a (2) adolygu'r cynllun mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

11. Dyddiad y cyfarfod nesaf

29 Gorffennaf 2021, 2.30PM

12. Unrhyw Fusnes Arall (Cytunwyd ymlaen llaw)

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi derbyn llythyr gan Maria Battle, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, cyn y cyfarfod, yn rhoi gwybod ei bod hi'n ymddiswyddo o'r Bwrdd. Wedyn gofynnwyd i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ystyried enwebiad y Cynghorydd Gareth John (Cyngor Sir Caerfyrddin) fel yr Aelod Annibynnol newydd ar gyfer Llywodraeth Leol ar y Bwrdd Iechyd i ymuno â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Cytunwyd y dylid gwneud hynny.

Rhoddodd HLL wybod i aelodau am gyfle a allai fod yn codi drwy rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru, a oedd wedi sicrhau cyllid y Loteri Genedlaethol dros 5 mlynedd i gefnogi cydgynhyrchu. Fel Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gallem ddysgu peth o'r broses hon pe bai Gorllewin Cymru yn cael ei ddewis fel un o'r ardaloedd peilot.

BWRDD PARTNERIAETH RANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU: CAMAU GWEITHREDU EBRILL 2021

Rhif	Gweithred	Arweinydd	Amserlen	Cynnydd	Statws
03/21/1	Adrodd ar ddiwygiadau terfynol i'r strwythur llywodraethu a chyflwyno cylch gorchwyl diwygiedig i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ei ystyried	MJP	29 Ebrill 2021	Diweddariad llafar ar yr adolygiad llywodraethu i'w roi yn y cyfarfod ar 29 Gorffennaf Cylch gorchwyl diwygiedig ar yr agenda ar gyfer 29 Gorffennaf	
03/21/2	Dod â rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ei chymeradwyo	MJP	Ebrill 2021	Diweddariad i'w roi 29 Gorffennaf	
03/21/3	Dod â maniffesto wedi'i ddiweddarau i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ei gymeradwyo	MJP	Gorffennaf 2021	Diweddariad i'w roi 29 Gorffennaf	
04/21/1	Diweddariad i'w roi ar y Gronfa Graddio Trawsnewid	MJP	Gorffennaf 2021	Diweddariad llafar i'w roi 29 Gorffennaf	
04/21/2	Dosbarthu cyflwyniad diweddarau RIICH	JR	Mai 2021	CWBLHAWYD	
04/21/3	Dosbarthu Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig i'w chymeradwyo'n rhithwir	KN	Mai 2021	Ar yr agenda ar gyfer 29 Gorffennaf	
04/21/4	Darparu dadansoddiad yn ôl Sir a math o ofalwyr di-dâl sydd wedi cofrestru â'r Bwrdd Iechyd yn ystod Pandemig Covid-19	AB	Heb ei nodi		
04/21/5	Mynd ar drywydd cyfleoedd i wahodd y Comisiynydd Pobl Hŷn i gyfarfod y Bwrdd Iechyd Cyhoeddus yn y dyfodol	MJP	Heb ei nodi	Diweddariad llafar i'w roi 29 Gorffennaf	